

<b>CYFARFOD</b>	<b>FFORWM CYLLIDEB YSGOLION</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>30 Mehefin 2015</b>
<b>TEITL</b>	<b>Cyfrifon Terfynol Ysgolion Blwyddyn Gyllidol 2014/15</b>
<b>PWRPAS</b>	<b>Cyflwyno er gwybodaeth</b>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	<b>Derbyn yr adroddiad</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg</b>
<b>AELOD CABINET DROS ADDYSG</b>	<b>Y Cynghorydd Gareth Thomas</b>

## 1 Cyfrifon Terfynol 2014/15

1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2015 (atodiad 1).

1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2015 -

	<b>canran</b>	<b>31/03/2014</b>	<b>cynnydd/lleihad</b>	<b>31/03/2015</b>	<b>canran</b>
<b>Cynradd</b>	7.26%	£2,567,330	+£46,436	£2,613,766	7.32%
<b>Uwchradd</b>	3.30%	£1,139,969	<b>-£319,914</b>	£820,055	2.45%
<b>Arbennig</b>	3.20%	£69,547	<b>-£7,787</b>	£61,760	2.80%
<b>Cyfanswm</b>	<b>5.24%</b>	<b>£3,776,846</b>	<b>-£281,267</b>	<b>£3,495,480</b>	<b>4.89%</b>

1.3 Yn gyffredinol, mae balansau holl ysgolion Gwynedd wedi gostwng £281,267 yn ystod 2014/15 i £3,495,580, cyfateb i 4.89% o'u dyraniad terfynol.

1.4 Mae gan 15 ysgol ddiffyg ariannol ar ddiwedd 2014/15 gwerth £327,873, i gymharu gyda 7 ar ddiwedd 2013/14 gwerth £116,313.

- 9 Ysgol Gynradd gyda chyfanswm diffyg £111,677 (amrywio rhwng £780 a £52,579)
- 5 Ysgol Uwchradd gyda chyfanswm diffyg £190,742 (amrywio rhwng £17,943 a £94,128)
- 1 Ysgol Arbennig gyda diffyg £25,454

1.5 Yn unol â'r hyn ddigwyddodd yn 2012/13 ac 2013/14, fe welir lleihad sylweddol ym malansau Ysgolion Uwchradd a chynnydd ym malansau Ysgolion Cynradd.

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg grym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Uwchradd ac Arbennig.

2.2 Manylion y drefn gweithredu

- **Balansau dros 5%** : Yn unol â Chynllun Ariannu Ysgolion (cymal 4.2) mae gofyn statudol i ysgolion sydd â balansau dros 5% o'u dyraniad adrodd i'r Awdurdod ar y defnydd mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud o'r balansau (disgwylir bod y Corff Llywodraethol wedi cytuno ar ymateb yr ysgol i'r holiadur). Gwneir hyn trwy ryddhau holiadur pwrpasol (atodiad 2) .

**Amserlen: holiadur i'w ddychwelyd erbyn 17 Gorffennaf 2015**

- **Balansau dros drothwy £50,000/£100,000** : Adnabod balansau Ysgolion ar y 1 Ebrill, gan ychwanegu cyfrifiad o'r balansau sydd dros y trothwy priodol (atodiad 2). Gofynnir i'r ysgolion perthnasol adrodd i'r Awdurdod ar y defnydd mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud o'u balansau (disgwylir bod y Corff Llywodraethol wedi cytuno ar ymateb yr ysgol i'r holiadur). Gwneir hyn trwy ryddhau holiadur pwrpasol (atodiad 2).

**Amserlen: holiadur i'w ddychwelyd erbyn 17 Gorffennaf 2015**

- **Cyfarwyddo Corff Llywodraethu**

Yn dilyn adolygiad o ymateb ysgolion perthnasol i'r ddau gais uchod, os yn briodol, byddaf yn cyfarwyddo'r Corff Llywodraethu sydd â balansau uwchben y trothwy £50,000/£100,000 sut i wario elfen o'u balansau a gofyn am gadarnhad y byddant yn gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd.

Byddaf hefyd, yn cysylltu gydag ysgolion sydd â balansau dros 5%, ond o dan y trothwy, os ydi'r holiadur ar ddefnydd o falansau yn aneglur ac/neu fod y rhesymau a gynigir yn annerbyniol neu'n amwys.

**Amserlen: Hydref 2015**

- **Talu gwaged i'r Awdurdod**

Adolygu os yw ysgol wedi gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd, ac os nad ydynt, hysbysu ysgol o'r swm ariannol a drosglwyddir yn syth o gyllideb yr ysgol i'r gyllideb ysgolion.

**Amserlen – Rhagfyr 2015**

2.3 Mae colofn 'F' ar atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon.

## **2. Casgliad**

- 2.1 Mae cyfanswm a chanran balansau Ysgolion Cynradd Gwynedd yn parhau'n uchel ac yn parhau i achosi pryder.
- 2.2 Hefyd yn achosi pryder yw'r ffaith bod gan Wunedd unrhyw ysgol gyda diffyg ariannol, ynghyd a'r cynnydd yn y nifer ysgolion a gwerth y diffyg.

## **3. Argymhelliad**

- 3.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid cydweithio yn agos gyda'r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynted â phosib.**
- 3.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid adolygu trefniadau presennol monitro cyllidebau ysgolion.**
- 3.3 Wrth drafod balansau, rhaid ystyried yr her ar ysgolion i ddarganfod arbedion ariannol sylweddol yn y blynyddoedd gyllidol 2016/17, 2017/18 a thu hwnt. Dylid hefyd fod yn ymwybodol am effaith ariannol rhagolwg lleihad pellach yn nifer disgyblion Ysgolion Uwchradd o dros £800,000 rhwng 2016/17 a 2017/18.**